

CYFWELIAD BARDDAS

Mae'r arlunydd IWAN BALA yn hoff iawn o ddefnyddio llinellau o farddoniaeth yn ei waith celf, fel y gwelir yn drawiadol iawn ar glawr a chefn y rhifyn hwn o Barddas.

Wyt ti'n meddwl ei bod hi'n iawn holi arlunydd yng nghylchgrawn y Gymdeithas Gerdd Dafod?

Wel, y peth pwysig ydi traddodiad Cymru. Traddodiad barddonol ydi hwnnw i mi; geiriau sy'n bwysig. Mae hi wedi bod yn anodd iawn i artistiaid gweledol greu lle iddyn nhw eu hunen yng Nghymru yn yr un modd â'r beirdd. Ac yn y pen draw, os edrychwn ni 'nôl dros y canrifoedd, barddoniaeth ydi'r peth sydd wedi bod yn bwysig i seicoleg y Cymry. Ond r'an rydan ni wedi cyrraedd rhyw gyfnod lle mae, falle, ryw bosibilrwydd inni ddyfeisio iaith newydd, iaith weledol. A dyna be' dw i wedi bod yn ei wneud yn bersonol yn fy ngwaith ydi trio creu iaith weledol allan o iaith sydd wastad wedi bod yn eiriol, a hynny heb gollu cryfder y geirie 'ma sydd mor bwysig i'n hunaniaeth ni. Alla'i ddim dweud bod hyn yn wir am bob artist yng Nghymru, er bod na dipyn o draddodiad, Ogwyn Davies, Mary Lloyd Jones, Jonah Jones, Ceri Richards hefyd. R'wyf wedi ceisio asio y diwilliant barddonol gyda'r un gweledol yn fy ngwaith diweddar, er mwyn creu rhywbeth sydd yn siarad am y diwilliant Cymreig yn gyffredinol. Felly falle ei fod yn hen bryd i holi artist yn Barddas!

Mae 'na lawer iawn o eiriau yn dy waith celf di: dyfyniadau, llinellau a phenillion cyfan, weithiau.

Oes! Ar hyn o bryd, dyna 'mryd i ydi geirie, ac i mi, un o ffaeledde mwya' artist ydi peidio a datblygu yn ôl yr hyn mae o'n ei ddysgu trwy'r amser. Mae'n rhywbeth dw i wedi cael fy nwyn i fyny efo fo, barddoniaeth, a beirdd hefyd wrth gwrs, genni gof o eistedd ar lin Llwyd o'r Bryn yn Sarnau pan oeddwn yn blentyn bach. Dw i'n gweld bod dywediade yn y Gymraeg, geirie beirdd mawr fel Gerallt Lloyd Owen, (hefyd o'r Sarnau) yn creu rhyw ddelwedd weledol gre, a dwi isio'r gwaith celf fod yr un mor drawiadol ac eiconaid drwy gyfieithu'r geiriau i mewn i ddelwedd. Ie, rhyw fath o gyfieithiad ydwi'n anelu amdano, un falle fydd yn dod a geiriau'r Gymraeg i gynulleidfa newydd – rhai sydd falle rioed wedi gweld y geiriau ar bapur o'r blaen! Rwyf yn arddangos yn China diwedd y flwyddyn er engrhaifft. Wedi gweithio efo beirdd fel Iwan Llwyd, David Greenslade a Mererid Hopwood, a tithe Twm, dros y blynyddoedd, dw i'n teimlo bod barddoniaeth a geirie yn rhan bwysig iawn o'r diwylliant dw i'n rhan ohono. Gan fy mod i yn fy ngwaith yn trafod fy niwylliant fy hun, mae'n anhepgor imi ddefnyddio geirie. Y peth sydd yn ein gwahaniaethu ni o unrhyw genedl arall yn anad dim yw yr iaith Gymraeg, ar ffordd o feddwl a dehongli bywyd sydd yn rhwymedig yn yr iaith. R'wyn rhoi'r geiriau ar bapur mewn arddull amrwd, efo gwallau a chroesi allan a chywiro. Ymgais ydi o i efelychu'r broses greadigol o greu yn y lle cyntaf, y geiriau yn dod i fodolaeth mewn genedigaeth boenus, yn hytrach na chreu celf addurniadol grefftus allan o'r geiriau.

Sut y dechreuodd yr arfer o ddefnyddio geiriau yn dy ddarluniau?

Ma geiriau wastad wedi ymddangos yn fy ngwaith i raddau, ond er colli'n 'Nhad yn 2011, mi fues i'n mynd trwy ei lyfre, ac yn cael hyd i bytie o gerddi roedd o wedi eu tanlinellu; emyne hefyd – pethe roedd o wedi eu nodi er mwyn eu defnyddio. Mi ddechreuais i sgwennu'r rhain i mewn i 'ngwaith i. Pethe fel 'Dyma gariad fel y moroedd, tosturiaethau fel y lli...'; geirie dw i'n cofio eu canu yn y capel. Ond geirie hefyd o ganu'r Cynfeirdd ymlaen yn sôn yn amal am freuder bywyd. Wnes i ddim trafod digon efo 'Nhad am fywyd a marwolaeth. Erbyn y diwedd, r'oedd yn fud bron, doedd dim sgwrs ar ol, ac yntau wedi bod mor ffraeth. R'oedd y cyfle wedi mynd. Mae creu'r gwaith 'ma yn ymgais i ddygymod â phethe felly mae'n debyg. Ond dydi'r defnydd o'r geirie ddim yr un peth gen i ag oedd o gan fy Nhad flynyddoedd yn ôl. Pam oedd o wedi dewis rhai darne o gerddi? Ar gyfer rhyw wers yn yr ysgol, efalla, neu anerchiad yn y seiat, neu ddarlith yn rhywle. Rydw i'n eu defnyddio nhw yn wahanol, ac eto mae rhywbeth 'addysgiadol' amdanynt, weithie dwi'n gweld y marciau ar y papur fel gwrs ar y bwrdd du, neu boster ar wal yr ysgol. Mae'r syniadau ynddynt yn crynhoi fel traehawd. Wrth gwrs, dydi o byth yn mynd i weld y gwaith yma; dydi o ddim yn mynd i wybod fy mod i wedi mynd trwy ei lyfre. Mae hynny yn codi hiraeth...

Mae hiraeth yn thema amlwg yn y dyfyniadau rwyt ti'n eu defnyddio!

Mae hynny'n wir. Ond os ydi diwylliant yn seileidig ar ei lenyddiaeth, bron iawn na fuasai rhywun yn dweud bod ein diwylliant ni, y Cymry, yn ddiwylliant o hiraeth. Rydan ni wastad yn hiraethu am rywbeth allai fod; colledion mawr trwy'r amser yn ein hanes ni; brwydro a cholli o hyd, ond eto dal ymlaen rywsut. Mae'r diwyllianau sydd a gair tebyg i hiraeth yn eu hieithoedd yn diodde o hanes debyg.. Portiwgal a Galicia er enghraifft. Mae hiraeth a cholled yn cael eu trawsnewid a'u dyrchafu mewn barddoniaeth. Ac mae'r farddoniaeth 'ma yn ein cadw ni mewn stad o feddwl hiraethus. Bardd o'r ddegfed ganrif, dyweder, ddim efo ni rwan wrth reswm, ond mae ei eirie yr un mor berthnasol r'an ag oedden nhw pan sgwennwyd nhw. Mae hiraeth yn y geirie eu hunen. Wrth ddarllen y farddoniaeth, rydan ni'n boddi'n hunen, mewn ffordd, yn y gymuned 'ma, y Gymru 'ma, y Cymreictod 'ma sydd wedi bodoli trwy'r canrifoedd. Mwy'n y byd rydan ni'n darllen y cerddi, mwy'n y byd mae hiraeth yn mynd yn rhan o'n psyche ni, y Cymry Cymraeg. A phan mae'r peth yn dod yn rhan o'n seicoleg ni, mae'r teimlad o golled yn mynd yn rhywbeth y gallwn ni fel cenedl ymfalchïo ynndo fo, bron. Mi fydda'i'n meddwl weithie mai ymgais ydi holl lôn a chwedloniaeth Cymru i ymdopi â'r syniad yma o golled; pethe sydd wedi diflannu fel dagre yn y glaw. Ond i unigolyn, mi all y teimlad fod yn llethol. Mae beirdd neu artistiaid neu gerddorion yn ei oresgyn o wrth ei droi yn rhywbeth creadigol, pendant, cadarnhaol. Oni bai 'mod i yn medru creu rhywbeth ohono fo, dw i ddim yn gwybod sut y buaswn i'n dygymod â fo. Efalla, cofia, bod y pethe hyn yn dod yn fwy amlwg wrth i rywun gyrraedd ei ganol oed!

Rwyt ti'n cydweithio efo beirdd yn amal.

Ydw. Mi fues i'n gweithio dipyn efo Iwan Llwyd, ac mi wnes i arddangosfa yn ddiweddar ar y cyd efo Menna Elfyn yn Oriel Myrddin a Chanolfan y Mileniwm, ac sydd yn wexford, Iwerddon ar hyn o bryd; pytie o'i gwaith hi yn fy narlunie i – trafodaeth, mewn ffordd, am y diwylliant rydan ni ein dau yn ei rannu. R'oedd hyn yn sialens newydd i mi: gweithio efo rhywun â gweledigaeth wahanol iawn, ac roedd hynny yn gwneud i mi greu gwaith newydd, falle. Cychwyn y peth oedd cerdd o waith Myrddin ap Dafydd, sef 'Dim ond Geiriau ydi Iaith', oedd yn ymateb i rywbeth roedd Dafydd Elis Tomos wedi ei ddweud: Wel, mi oedd Dafydd Elis Tomos yn y ddarlithh roddais yng Nghanolfan y Mileniwm, a dyna ofyn iddo esbonio beth o wedi ddweud yn union. Mi lwyddodd i ddod ohoni wrth gwrs, drwy ddull ddamcaniaethol ol-fodern!. Mae'r llun nawr ym meddiant Dafydd gan i'w wraig brynu'r llun. Dyna farddoniaeth a chelf yn uno i ddod yn rhan o gymdeithas. Mae llawer o gelf heddiw yn delio efo traddodiad mewnbylg y byd celf. Ond os ydach chi'n cyfuno geirie a chelf, rydach chi rywsut neu'i gilydd yn dod yn rhan o gymdeithas fwy eang, o gyfoedion, pobol ifanc, pobol h?n. 'Y traddodiad hardd ydyw; yr hen ddweud o'r newydd yw...' Rydan ni'n gorfod ail-greu trwy'r amser, er mwyn cadw'r traddodiad i fynd.

A beth am glawr newydd Barddas, a'r cefn, sef dy ddehongliad di mewn celf o'r cwpled hwnnw gan Gerallt Lloyd Owen?

Wel, delwedd sydd ar y cefn o Ianws, duw Celtaidd/Rufeinig a roes enw i fis Ionawr, sy'n edrych i'r gorffennol ac i'r dyfodol yr un pryd. Ac i mi, mae'r cwpled yma, fel llawer iawn o linelle Gerallt, yn sôn am bethe fel hyn. Mi fuo'n rhaid imi feddwl i ddechre be' allwn i ei wneud o'r syniad, a dyna ddelwedd y babi o fewn y sgerbwd yn dod. Marwolaeth ydi ystyr sgerbwd i bawb, ond o fewn y sgerbwd yma mae bywyd newydd yn tyfu...

Magu esgyrn mân!

Ie... Allan o'r hen greirie mae rhywbeth newydd yn dod. Dyna'r math o beth roeddwn i'n meddwl amdano wrth drio dyfeisio clawr newydd, gan ddilyn llinell Gerallt. Ond dw i wedi defnyddio delwedd Ianws yn amal dros y blynyddoedd; mae o'n ryw fath o 'motif' neu 'law fer' sydd yn angori'r gwaith. Rhaid peidio anghofio'r gorffennol wrth symud i'r dyfodol. Dyna ydi'r peryg mewn llawer o ddiwyllianne ydi eu bod nhw'n colli golwg ar y gorffennol drwy ruthro yn eu blaenau i'r dyfodol. Mae'n digwydd dros y byd, ond rydan ni'r Cymru mewn lle arbennig o dda i godi ymwybyddiaeth ynghylch y peth, achos rydan ni wedi bod yn ei drin a'i drafod ers talwm, ond do? I mi, mae cwpled Gerallt yn golygu rhywbeth mawr a phwysig. Roedd delwedd y sgerbwd gen i cynt, a dweud y gwir, ond dim byd arall efo fo. Dim ond ar ôl gweld y geirie 'ma y daeth y peth yn fyw. Nid jest rhywbeth sy'n digwydd ar bapur ydi o, ond rhywbeth sy'n digwydd yn y pen, ond mae'n rhaid i'r ddau beth ddigwydd yn gytun. Mae lle i gael trafodaeth ddofn iawn am hyn! O ble mae ysbrydoliaeth yn dod? Sut mae creu cerdd? Ydi o'n debyg i greu darlun? Y gymdeithas 'ma dw i'n rhan ohoni: dw i'n ei rhannu hi efo'r beirdd.

